**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE CYFARFOD CYFFREDINOL Y CYNGOR**

**SUBJECT:** **CYFARFOD CYFFREDINOL Y CYNGOR - DYDD IAU, 24 TACHWEDD 2022 DYDD IAU, 24 TACHWEDD 2022**

**REPORT OF:**

---

PRESENT:

Councillors C. Smith (Aelod Llywyddol)
C. Bainton
P. Baldwin
S. Behr
D. Bevan
K. Chaplin
M. Cross
H. Cunningham
D. Davies
G. A. Davies
M. Day
S. Edmunds
J. Gardner
J. Hill
W. Hodgins
J. Holt
G. Humphreys
R. Leadbeater
J. Morgan, J.P.
J. C. Morgan
J. P. Morgan
L. Parsons
T. Smith
J. Thomas
S. Thomas
H. Trollope
L. Winnett

WITH:

Prif Weithredwr Interim
Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg
Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol
Prif Swyddog Adnoddau
Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid
Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithol a Chorfforaethol
Pennaeth Datblygu Sefydliadol
Pennaeth Interim Gwasanaethau Plant
Rheolwr Gwasanaeth Perfformiad a Democrataidd
Rheolwr Cyfathrebu a Marchnata
Partner Busnes – Adnoddau

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| **No. 1** | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan:<br><br>Cynghorwyr E. Jones, D. Rowberry, G. Thomas, J. Wilkins, D. Woods, Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Llywodraethiant a Phartneriaethau. | |
| **No. 3** | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| **No. 4** | **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**<br><br>**Llongyfarchiadau**<br><br>Estynnwyd llongyfarchiadau i Grace Bayton o Llanhiledd ar gymhwyso fel Cyfrifydd Siartredig yn 20 oed, y person ifanc yn y byd i gymhwyso. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Nodwyd yr anfonwyd llythyr at Grace yn ei llongyfarch ar ran y Cyngor.<br><br>**Cydymdeimlad**<br><br>Mynegwyd cydymdeimlad gyda Steph Hopkins, Rheolwr Tîm Rheoli Datblygu ar farwolaeth drist ei mam.<br><br>Dangosodd Aelodau a swyddogion eu parch gyda munud o dawelwch. | |
| **No. 5** | **LLYFR PENDERFYNIADAU MEDI – TACHWEDD 2022**<br><br>Cyflwynwyd y Llyfr Penderfyniadau ar gyfer y cyfnod Medi – Tachwedd 2022 i'w ystyried.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i gymeradwyo a chadarnhau'r cofnodion. | |
| **No. 6** | **CYFARFOD CYFFREDINOL Y CYNGOR**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 7** | **CYFARFOD ARBENNIG O'R CYNGOR**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 8** | **PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 9** | **PWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 10** | **PWYLLGOR CRAFFU CYNLLUNIO**<br><br>Cytunwyd. | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 11** | **PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 12** | **PWYLLGOR CRAFFU CYNLLUNIO**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 13** | **PWYLLGOR GWEITHREDIAETH**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 14** | **CABINET**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 15** | **CYFARFOD ARBENNIG O'R CABINET**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 16** | **PWYLLGOR CRAFFU POBL**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 17** | **PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL A PHERFFORMIAD**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 18** | **PWYLLGOR CRAFFU LLEOEDD**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 19** | **PWYLLGOR LLYWODRAETHIANT AC ARCHWILIO**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 20** | **PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL A PHERFFORMIAD**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 21** | **PWYLLGOR CRAFFU POBL**<br><br>Cytunwyd. | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 22** | **PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 23** | **CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR LLYWODRAETHIANT AC ARCHWILIO**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 24** | **CYFARFOD CYFFREDIN Y CYNGOR – DALEN WEITHREDU**<br><br>Cyflwynwyd y Ddalen Weithredu yn deillio o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Medi 2022.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 25** | **CYFARFOD ARBENNIG O'R CYNGOR – DALEN WEITHREDU**<br><br>Cyflwynwyd y Ddalen Weithredu yn deillio o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Hydref 2022.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 26** | **CWESTIYNAU AELODAU**<br><br>Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau gan Aelodau. | |
| **No. 27** | **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD**<br><br>Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd. | |
| **No. 28** | **YMGYNGHORIAD AR DDRAFFT ADRODDIAD BLYNYDDOL 2023 PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad ar y cyd gan Swyddogion.<br><br>Yn dilyn trafodaeth cynigiodd Arweinydd y Cyngor gymeradwyo Opsiwn 2 a bod y sylwadau dilynol yn ffurfio rhan o ymateb yr ymgynghoriad i'w anfon ymlaen at Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, sef<br><br>Oherwydd yr argyfwng ariannol a chostau byw presennol, nid yw'r | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cyngor yn cytuno y dylid cyfeirio'r cyflog sylfaenol na'r cynnydd a gynigir i elfennau rôl Bandiau 1 a 2 at ddata ASHE 2021. Teimlai'r Cyngor y dylai pob penderfyniad rôl ar gyfer 2022 i 2023 barhau fel oeddent.<br><br>Felly PENDERFYNWYD yn unfrydol, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 2, sef y cafodd pob un o'r penderfyniadau a gynhwysir yn nrafft adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2023/2024 a amlygir ym mharagraffau 6.1.1 i 6.1.6 eu hystyried ac y cyflwynir y sylwadau uchod yn ymwneud â'r penderfyniadau uchod i'r Panel fel rhan o'r broses ymgynghori a fyddai'n dod i ben ar 1 Rhagfyr 2022. | |
| **No. 29** | **<u>ADRODDIAD ADOLYGU BLYNYDDOL RHEOLI TRYSORLYS 1 EBRILL 2021 I 31 MAWRTH 2022</u>**<br><br>Ystyriodd Aelodau adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Diolchwyd i swyddogion y tîm am eu gwaith mewn amgylchiadau ariannol anodd.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef nodi'r gweithgaredd rheoli trysorlys a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22 a derbyn cofnod perfformiad a chydymffurfiaeth a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn. | |
| **No. 30** | **<u>POLISI GYRRU YN Y GWAITH</u>**<br><br>Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Datblygu Sefydliadol i gael ei ystyried.<br><br>Dywedodd y Pennaeth Datblygu Sefydliadol y gofynnir am gyngor gan gydweithiwr yng nghyswllt gwirio a monitro dogfennau Aelodau. Yn ychwanegol, anfonir cyfathrebiad corfforaethol at yr holl staff a rheolwyr yn gofyn am raeadru manylion y polisi i'r gweithlu. Nodwyd y caiff mesurau diogelwch o fewn cerbydau eu cynnwys fel rhan o'r wybodaeth.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cefnogi cydymffurfiaeth Iechyd a Diogelwch a chymeradwyo gweithredu'r | |

| | | |
|---|---|---|
| | Polisi Gyrru yn y Gwaith. | |
| **No. 31** | **<u>GWASANAETHAU DIOGELU'R CYHOEDD A GORFODAETH AMGYLCHEDDOL – POLISI GORFODAETH DIWYGIEDIG</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth – Diogelu'r Cyhoedd.<br><br>Diolchodd yr Aelodau i'r Hyrwyddwyr Sbwriel am eu gwaith gwirfoddol gwerthfawr tu hwnt, yn casglu sbwriel o fewn eu hardaloedd ym Mlaenau Gwent.<br><br>Dywedodd yr Aelod Llywyddol y caiff yr Hyrwyddwr Sbwriel gwirfoddol eu cydnabod am eu gwaith mewn cyfarfod gyda swyddogion yn y Swyddfeydd Cyffredinol a drefnir maes o law.<br><br>Mewn ymateb i sylw am gyhoeddi erlyniadau, dywedodd y Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid y cynhelir ymchwiliadau i'r wybodaeth a gyfathrebir drwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor .<br><br>Gadawodd y Cynghorydd G. A. Davies y cyfarfod ar y pwynt hwn.<br><br>Dilynodd trafodaeth faith pan ymatebodd yr Aelod Cabinet Lle ac Amgylchedd i gwestiynau ac egluro pwyntiau a godwyd. Mynegodd ei diolch i'r swyddogion a fu'n ymwneud â datblygu'r polisi a'r holl dîm am eu holl waith ar sail ddyddiol.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cymeradwyo mabwysiadu Polisi Diogelu'r Cyhoedd a Gorfodaeth Amgylcheddol.<br><br>Caiff y Polisi ei adolygu'n ffurfiol bob pum mlynedd i'w gymeradwyo gan y Cyngor, neu'n gynharach os credir fod angen. | |
| **No. 32** | **<u>TREFNIADAU CYDWEITHREDU CENEDLAETHOL AR GYFER GWASANAETHAU MABWYSIADU A MAETHU CYMRU (AWDURDODAU LLEOL)</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim Gwasanaethau Cymdeithasol. | |

| | | |
|---|---|---|
| | PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef mabwysiadu'r cynigion ar gyfer datblygu'r trefniadau llywodraethiant ar gyfer Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru wrth iddo ddod yn gyfrifol am Maethu Cymru.<br><br>Cadarnhawyd cefnogaeth ar gyfer y Cytundeb cyd Bwyllgor ar gyfer y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a llofnodwyd y cytundeb. | |
| **No. 33** | **<u>ADRODDIAD AELODAETH</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i:<br><br>**<u>PANEL YMGYNGHOROL AR GYFER LLYWODRAETHWYR AWDURDOD LLEOL</u>**<br>Nodwyd y cafodd y cyfarfod o'r Panel Ymgynghorol a drefnwyd ar gyfer 22 Tachwedd 2022 ei ohirio ac y caiff ei ail-drefnu maes o law.<br><br>**<u>PWYLLGOR CRAFFU BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWENT</u>**<br>Penodi'r Cynghorwyr Tommy Smith ac Ellen Jones i Bwyllgor Craffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent.<br><br>PENDERFYNWYD yn unol â hynny.<br><br>**<u>BWRDD PARTNERIAETH YSGOLION DIOGELACH</u>**<br><br>Penodi'r Cynghorydd Tommy Smith i'r Bwrdd Partneriaeth Ysgolion Diogelach.<br><br>PENDERFYNWYD yn unol â hynny. | |
| **No. 34** | **<u>EITEMAU EITHRIEDIG</u>**<br><br>Derbyn ac ystyried yr adroddiad dilynol sydd ym marn y swyddog priodol yn eitemau eithriedig gan roi ystyriaeth i'r prawf budd cyhoeddus ac y dylai'r wasg a'r cyhoedd gael eu heithrio o'r cyfarfod (mae'r rheswm dros y penderfyniad am yr eithriad ar gael ar restr a gedwir gan y swyddog priodol). | |

| | | |
|---|---|---|
| | Gadawodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol y cyfarfod ar y pwynt hwn. | |
| **No. 35** | **<u>PWYLLGOR PENODIADAU</u>**<br><br>Gan roi ystyriaeth i'r farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol ynghylch y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth, fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra cynhelir yr eitem hon o fusnes gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 a 13 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Medi 2022.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad yn ymwneud â materion staffio a bod y swydd yn cael ei chynnig i Eleanor Fry ar gyflog yn unol â JNC CO (£83,481 - £91,826 y flwyddyn). | |